Rhybudd o Wneud

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (PLYMOUTH STREET, KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET A ROWDEN STREET, SHOTTON) (TRAFFIG UNFFORDD) 2021

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 23 Mawrth 2021 drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1) a 2 (1) a (2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'i effaith fydd:

(1) Gwahardd unrhyw gerbyd, ac eithrio beiciau pedal, rhag teithio ar hyd y darnau o'r ffordd a nodir yng Ngholofn 1 Atodlen yr Hysbysiad hwn, i gyfeiriad ar wahân i'r hyn a nodir mewn perthynas â'r darnau hynny o'r ffordd yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno.

(2) Bydd y gorchymyn, wneud yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Plymouth Street, King George Street, Mostyn Street a Rowden Street, Shotton) (Traffig Unffordd) 2002 yn ei gyfanrwydd.

ATODLEN

Colofn 1 **Enw'r Ffordd**	**Colofn 2** **Cyfeiriad a Ganiateir**
Plymouth Street, Shotton: O'i chyffordd gyda B5129 Chester Road (West) at ei chyffordd gyda Mostyn Street	**Gogledd ddwyreiniol**
King George Street, Shotton: O'i chyffordd gyda B5129 Chester Road (West) at ei chyffordd gyda Mostyn Street.	**De orllewinol**
Mostyn Street, Shotton: O'i chyffordd gyda King George Street, at ei chyffordd gyda Plymouth Street.	**Gogledd orllewinol**
Rowden Street, Shotton: O'i chyffordd gyda B5129 Chester Road (West) am bellter o 76 metr i gyfeiriad y de-orllewin.	**De orllewinol**

Er diogelwch yn ystod y Pandemig COVID-19, os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 30 Ebrill 2021, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros wneud y Gorchymyn, cynghorir eich bod yn eu darllen ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk > Preswyl >Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch wneud cais am gopi o'r dogfennau trwy anfon e-bost at streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Os ydych chi'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

Stephen O Jones, Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF. Dyddiedig 26 Mawrth 2021